

# Croeso

Holltodd yr haul yr awyr, efallai dim ond am wythnos, ond onid oedd hi'n fendigedig ac yn codi calon?

Mae'r haf yn tueddu i ddod â chyflymder llawer mwy hamddenol i fywyd – dim ysgol i'r plant, mae pobl yn bwcio amser i ffwrdd – ond nid i Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.


Rydym wedi bod wrthi'n gweithio'n galed, yn datblygu strategaethau a fydd yn dylanwadu ar ein hymagwedd yn y dyfodol ac yn darparu hyfforddiant i'n partneriaid i'w cefnogi wrth gyflenwi'r prosiect ar y llawr.

Felly, ymlaciwch, cymerwch saib fach, a dal i fyny gyda'r newyddion diweddaraf.



## Yn y rhifyn hwn

- Diweddariad gan RHA Wales
- Y Sefydliad Cyllid Gwyrdd yn lansio eu hymgyrch ddiweddaraf
- Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr yn lansio eu hadroddiad polisi newydd



# Cartrefi Braenaru

Yn gynharach eleni, lansiodd RHA, un o'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n bartner i ni, eu Strategaeth Ddatgarboneiddio gyntaf, 'RHA Optimise'.

Mae hon yn amlinellu eu hymrwymiad i leihau eu hallyriadau carbon a defnyddio llai o ynni trwy eu holl weithgareddau gan gynnwys eu swyddfeydd ac adeiladau masnachol, eu cartrefi a'u dulliau o weithio.

Mae eu gwaith yn y maes hwn yn gyfle gwirioneddol am waith partneriaetth a chydweithrediad.

*“ O ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig, bu'n rhaid i ni ailfeddwl ein cynlluniau gwreiddiol i arolygu pob cartref yn gyntaf felly yn lle hynny gosodom PV solar a storfeydd batri mewn deuddeg cartref y gwyddom ni y bydden nhw'n elwa arnyn nhw ar sail ein gwybodaeth o'r cartrefi. ”*

*Roeddem ni'n ymwybodol o'r paneli PV Solar a wnaed yng Nghymru mae GB-Sol lleol yn eu datblygu ac maen nhw wedi gweithio gyda ni i osod PV Solar a storfeydd batri yn y deuddeg cartref yn Llanhari. Dangoswyd bod systemau PV Solar yn lleihau biliau trydan drwy ddarparu trydan am ddim i'r preswylwyr.*

*Y gwahaniaeth gyda'r prosiect hwn, fodd bynnag, oedd ychwanegiad batri i alluogi storio unrhyw ynni a gynhyrchwyd a oedd heb ei ddefnyddio, i'w ddefnyddio ar adeg pan nad yw'r paneli PV Solar yn cynhyrchu trydan.*

*Wrth symud ymlaen byddwn yn mabwysiadu ymagwedd Ôl-osod er mwyn Optimeiddio gan ddatblygu cynllun unigol am bob cartref gyda'r nod o gyrraedd EPC A ar gynifer o gartrefi â phosibl erbyn 2030, yn unol ag argymhellion 'Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell' a thargedau Llywodraeth Cymru.*

– RHA Wales

# Economi Sylfaenol

## Bondiau Hinsawdd Lleol

Yng Ngorffennaf 2021, lansiodd y Sefydliad Cyllid Gwyrdd ac Abundance yr ymgyrch Bondiau Hinsawdd Lleol, i godi ymwybyddiaeth a chefnogi'r cynghorau sy'n cymryd rhan trwy'r broses o ryddhau eu Bondiau Hinsawdd Lleol eu hun ym mlwyddyn y COP26.

Mae gan Fondiau Hinsawdd Lleol y potensial i godi miliynau o bunnoedd am brosiectau gwyrdd yn y DU.

Maen nhw'n gynhyrchion ariannol sy'n cael eu lansio gan gynghorau i gyrchu cyllid cost-efeithiol ar gyfer prosiectau datgarboneiddio penodol, gan gynnig cyfle i bobl leol fuddsoddi yn eu hardal mewn modd tebyg i gyllido torfol ac i elwa o wneud hynny.

Wrth i'r archwaeth am gynhyrchion ariannol ar sail lle dyfu, y gobaith yw y bydd platfformau buddsoddi eraill yn ymuno ag Abundance wrth gefnogi cynghorau i gynnig Bondiau Hinsawdd Lleol.

Dysgwch fwy a chofrestrwch [yma](#).

---

## Adeiladu ar ein cryfderau: Ymagwedd gweddnewid y farchnad at ôl-osod iynni yng nghartrefi'r DU

Rhyddhaodd partneriaid y prosiect, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr gyda'r Ganolfan Er Ymchwil i Ateb y Galw am Ynni (CREDS), gyd-adroddiad sy'n ymchwilio i beth mae ei angen i integreiddio ôl-osod effeithlonrwydd ynni domestig yn arferion a gweithgareddau bob dydd adeiladwyr yn y farchnad atgyweirio, cynnal a gwella.

Cafodd yr adroddiad ei lansio mewn digwyddiad ar-lein ar 20 Gorffennaf 2021 lle roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys y Darpar Weinidog Ynni a'r Fargen Werdd Newydd, Dr Alan Whitehead AS, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol y Gwir Anrh Philip Dunne AS.

Gallwch chi wyllo'r recordiad a darllen yr adroddiad llawn [yma](#).



# Podlediad BetaTalk

Rydym ni erbyn hyn wedi cyrraedd pumed episod Tymor 4 o [bodlediad BetaTalk](#) rhagorol, sy'n cael ei gyflwyno gan y dylanwadwr diwydiant Nathan Gambling.

Fel rhan o'n cenhadaeth i ledu'r gair am Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (yn enwedig ymhlith cyflenwyr a chrefftwyr y dyfodol) rydym ni'n noddi Tymor 4 y podlediad, sy'n edrych ar ystyriaethau ar y llawr mewn perthynas â thechnoleg, sgiliau a hyfforddiant, gyda pheirianwyr ledled y wlad.


Felly, gwnewch banded i'ch hunan a mwynhewch wrando arnyn nhw. Mae dolenni isod.



**Episod 1**

To Heat Pump  
Hull & Back

**Episod 2**

Hybrid Thermol  
Solar

**Episod 3**

Ôl-osod gyda PAS2035 a  
TrustMark

**Episod 4**

Datgarboneiddio Gwres  
yn America: trafodaeth  
â Nate y Sibrydwr Tai

**Episod 5**

Sgwrsio â John  
Cantor Awdur y Llyfr  
Heat Pumps for the  
Home

# Digwyddiadau

**Ôl-osod er mwyn Optimeiddio: cyflwyniad i'r cyfle cynyddol ôl-osod cartrefi yng Nghymru a rôl storio â batris.**



## Ynglŷn â'r digwyddiad

Mae cydweithrediad Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a GwerthwchiGymru yn eich gwahodd i ddigwyddiad ar-lein, ddydd **Mawrth 3 Awst, 9:00am**, i ddweud wrthyfych chi am y Prosiect Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a'r farchnad ôl-osod gynyddol yng Nghymru, a chynnig gwybodaeth fanwl am rôl storio â batris a systemau ynni clyfar.

Ar hyn o bryd mae rhyw 1.4 miliwn o gartrefi ledled Cymru y mae angen eu gwneud yn fwy effeithlon o ran carbon i helpu i gyflawni targedau sero net 2050, felly bydd cael ôl-osod yn gywir a gwneud iddo ddigwydd drwy gyflenwi'r sgiliau a'r hyfforddiant mae eu hangen, yn allweddol i adeiladu economi gryf y dyfodol a helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Bydd y sesiwn yn rhoi cyflwyniad i chi hefyd i Busnes Cymru ac esboniad o sut allwn ni eich cefnogi chi a'ch busnes i fod yn barod i dendro am waith yn y sector hwn yn y dyfodol.

Mae'r digwyddiad hwn yn cael ei anelu at y sawl yn y sectorau ôl-osod a datgarboneiddio sydd â diddordeb, a'r sawl sy'n gweithio mewn trydaneg (a'u timau) o fewn Cymru, i gynnig trosolwg ar:

- Beth yw Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a beth yw'r cyfleoedd i osodwyr ledled Cymru?
- Cyflwyniad i storio â batris gan sonnenBatterie a chartrefi clyfar.
- Y rôl bwysig mae batris yn ei chwarae wrth ddefnyddio PV a chydbwysu'r grid.
- Sut mae busnesau'n gallu cymryd rhan a sut allwn ni eich helpu?

I gofrestru i fynychu, e-bostiwch [optimisedretrofit@sero.life](mailto:optimisedretrofit@sero.life).

# Hoffen ni Glywed Gennyh Chi!

Os hoffech chi ddysgu mwy am y Rhaglen Optimeiddio, gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf neu gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

Ewch i: [Optimised Retrofit – Sero Group](#)

E-bost: [optimisedretrofit@sero.life](mailto:optimisedretrofit@sero.life)

Dilynwch ni ar Twitter: [@OptimisedR](#)

Dilynwch ni ar LinkedIn: [Optimised Retrofit](#)

